| | |
|---|---|
| CYFARFOD | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **1 Rhagfyr 2015** |
| TEITL | **Cyfrifon Terfynol 2014/15** |
| PWRPAS | **Cyflwyno –**<br>• **Cyfrifon Terfynol 2014/15 i'w ail gymeradwyo;**<br>• **Llythyr, barn ddiwygiedig a thystysgrif Swyddfa Archwilio Cymru.** |
| ARGYMHELLIAD | **Ystyried a chymeradwyo'r wybodaeth cyn awdurdodi'r Cadeirydd i lofnodi'r cyfrifon eto.** |
| AWDUR | **Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid** |

---

**CEFNDIR**

**1.** Yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio 24/09/15, cyflwynwyd datganiadau ariannol statudol diwygiedig y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn am gymeradwyaeth y pwyllgor.

**2.** Penderfynwyd -

- cymeradwyo'r datganiadau ariannol statudol;
- derbyn adroddiadau perthnasol Swyddfa Archwilio Cymru (gyda barn diamod ar y cyfrifon am 2014/15), ac
- awdurdodi'r Pennaeth Cyllid a Chadeirydd y Pwyllgor i arwyddo'r "llythyrau cynrychiolaeth" a'u cyflwyno i Archwilydd Cyffredinol Swyddfa Archwilio Cymru.

**OEDI CYN CYFLWYNO TYSTYSGRIF**

**3.** Nodwyd pryd hynny y byddai oedi cyn ardystio'r cyfrifon, gan fod un aelod o'r cyhoedd wedi lleisio gwrthwynebiad i'r cyfrifon yn ymwneud â mater ymylol, sef gwariant ar gynllun Asiantaeth Cefnffyrdd yn y flwyddyn flaenorol.

**4.** O ganlyniad, ni allai Swyddfa Archwilio Cymru gwblhau eu cyfrifoldebau archwilio yn ffurfiol na chyflwyno tystysgrif i gau'r archwiliad cyn bod y mater wedi ei gyfarch.

**CWBLHAU'R ARCHWILIAD**

**5.** Atodaf lythyr sy'n cadarnhau fod Swyddfa Archwilio Cymru wedi cwblhau eu gwaith ar y mater hwn ac ymateb i'r etholwr yn datgan nad ydynt yn cynnig unrhyw gamau pellach **(Atodiad 1)**.

**6.** Mae barn diwygiedig yr Archwilydd a'i dystysgrif wedi'i amgáu efo'r llythyr atodol.

**DIM NEWID I'R CYFRIFON**

**7.** Nid oes unrhyw newidiadau i'r cyfrifon a gafodd eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio ar 24/09/15, ac mae'r Pennaeth Cyllid eisoes wedi'u hardystio, ond rhaid ystyried yr adroddiad terfynol hwn cyn ail-gymeradwyo'r cyfrifon.

**ARGYMHELLIAD**

**8.** Felly, gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio ar 01/12/15 awdurdodi Cadeirydd y Pwyllgor i arwyddo'r set 'glan' o'r un cyfrifon.

**CAMAU NESAF**

**9.** Ar ôl derbyn y cyfrifon wedi'u ail-lofnodi, bydd Archwilydd Cyffredinol Swyddfa Archwilio Cymru yn gallu ardystio'r cyfrifon a chau'r archwiliad ar gyfer 2014/15.

**Wedi'i amgau:**
Atodiad 1 – Llythyr Archwilydd Cyffredinol Cymru, dyddiedig 20/11/15